



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

Adroddiad Arolygu

The Margaret Barnard Playgroup Association

**Ysgol Gynradd Brynchrug
Brynchrug
Tywyn
LL36 9PR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/03/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

The Margaret Barnard Playgroup Association

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Llawn
Darparwr Cofrestredig	The Margaret Barnard Playgroup Association
Lleoedd cofrestredig	45
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

<u>Llesiant</u>	Da
<u>Gofal a Datblygiad</u>	Da
<u>Yr Amgylchedd</u>	Da
<u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u>	Da

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn gwneud dewisiadau o ran sut i dreulio eu hamser. Maent yn hyderus ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad gan eu bod yn cael gofal gan staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt, ac maent yn canolbwyntio'n dda ar dasgau.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Maent yn rhyngweithio mewn modd pwylllog a chadarnhaol ac yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau chwarae ysgogol i helpu'r plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol da.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am y byd o'u cwmpas drwy ddarparu amrywiaeth dda o ddeunyddiau naturiol ac wedi'u hailgylchu ac eitemau bywyd go iawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol i gefnogi plant a'u hanghenion unigol. Maent yn sicrhau bod gwiriadau recriwtio diogel ar waith er mwyn diogelu'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r plant a'u teuluoedd.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n dda ac mae ganddynt lais cryf. Maent yn hyderus wrth wneud eu penderfyniadau eu hunain am beth yr hoffent ei wneud a lle yr hoffent chwarae. Mae'r plant yn ymwybodol o'r gweithgareddau gwahanol sydd ar gael iddynt, er mwyn iddynt allu penderfynu beth yr hoffent ei wneud yn hyderus. Roedd rhai o'r plant yn mwynhau gwneud siapiau a chymeriadau thema'r Pasg gyda'r toes chwarae tra roedd eraill yn dewis gwisgo eu doliau a gofalu amdanynt, gan ddangos empathi drwy wthio'r doliau yn ofalus yn y gadair wthio a dweud wrth eraill am siarad yn dawel am fod y baban yn cysgu. Roedd y plant a ddewisodd chwarae ar eu pen eu hunain ar y mat yn cael eu gadael i chwarae, a'u goruchwyllo o bell.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn dangos cyffro ac yn mwynhau eu chwarae yn fawr. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a gyda'r staff. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus iawn am eu bod yn cael llawer o sylw gan staff sydd wir yn ystyried ac yn parchu eu dymuniadau a'u hanghenion. Mae rhai o'r plant yn chwarae gyda'i gilydd wrth i eraill chwarae'n annibynnol, ac mae rhai o'r lleill yn ymgysylltu ag aelod o'r staff wrth chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn llawn cyffro wrth guddio wyau bach plastig i'w ffrindiau fynd ati i chwilio amdanynt mewn helfa wyau Pasg. Mae'r plant yn sboncian o gwmpas i guddio'r wyau gan esgus mai nhw yw Cwningen y Pasg, gan weiddi "*boing, boing, boing*" wrth iddynt wneud hynny.

Mae ymddygiad y plant yn dda ac mae'r rhyngweithio rhyngddynt yn gadarnhaol. Maent yn dechrau deall pwysigrwydd rhannu ac aros eu tro. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff; maent yn cydweithredu'n frwdfrydig ac yn gwrandao ar eu ceisiadau. Er enghraifft, aeth y plant i olchi eu dwylo ar ôl chwarae yn yr awyr agored gan ei bod hi'n amser cinio. Mae llawer o'r plant yn gyfarwydd iawn â'r arferion, sy'n rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt. Gwelsom y plant yn cofleidio'r staff wrth iddynt gyrraedd y lleoliad ar ôl ysgol, gan rannu eu straeon am y diwrnod gyda'r staff. Mae'r plant yn chwerthin ac yn gwenu wrth chwarae, gan ddangos eu bod yn hapus ac yn mwynhau eu hunain.

Mae'r plant yn ddysgwyr chwilfrydig sy'n ymgymryd â'u chwarae a'u dysgu am gyfnodau estynedig o amser. Maent yn mwynhau'r ystod eang o gyfleoedd a phrofiadau bywyd go iawn yn fawr iawn; gan archwilio'r adnoddau'n hyderus a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, roedd plentyn yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored ar y ceir reidio, gan weiddi "*beep, beep*" tra roedd plant eraill yn mwynhau sbecian drwy'r ysbienndrych, gan egluro eu bod yn chwilio am adar yn y coed.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio'r ystafelloedd ymolchi yn annibynnol, neu gyda chymorth yn ôl yr angen. Gall y plant gael eu hunain yn barod ar gyfer amser cinio, ac

maent yn defnyddio cylyll a ffyr i fwydo eu hunain ac yn helpu'r staff i dacluso. Maent yn dysgu sut i dynnu eu cotiau a'u hesgidiau glaw wrth ddychwelyd o fod yn chwarae yn yr awyr agored.

Gofal a Datblygiad

Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r plant. mae pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu plant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y camau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae gan y rhan fwyaf o'r staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chaiff unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni.

Mae'r staff yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Caiff hylendid da ei hyrwyddo, gyda'r staff yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i olchi ei ddwylo yn ôl yr angen. Wrth newid cewynnau, mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cynnal urddas y plant ac yn gwneud yn siŵr bod y plant yn teimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio. Fodd bynnag, nid yw'r staff bob amser yn gwisgo ffedog a menig untro wrth newid cewynnau. Mae amrywiaeth o fyrbrydau iach ar gael i'r plant ac mae systemau effeithlon ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion deietegol unigol y plant.

Mae'r staff yn siarad mewn ffordd gynnes a charedig â'r plant. Maent yn rhoi cysur a thawelwch meddwl pan fydd eu hangen ar y plant ac yn eu trin â pharch. Maent yn annog rhyngweithio cadarnhaol gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol ac effeithiol iawn, gan roi cyfarwyddiadau clir wrth esbonio i'r plant pan nad yw eu hymddygiad yn briodol. Er enghraifft, pan nad oedd y plant am rannu'r teganau, roedd y staff yn eu helpu i gyfaddawdu er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael tro, gan egluro'n dawl pam ei bod yn bwysig rhannu. Roedd y staff yn dangos esiampl o sut i ryngweithio'n gadarnhaol drwy gydol y dydd, gan roi digon o ganmoliaeth i'r plant am ymddygiad da, am gwblhau gweithgareddau ac am roi cynnig ar bethau newydd.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion unigol. Caiff manylion cynhwysfawr am ddewisiadau ac anghenion unigol y plant eu casglu cyn iddynt ddechrau. Mae'r wybodaeth hon, yn ogystal â system i gynllunio yn y foment sydd wrthi'n cael ei datblygu, yn dechrau cael eu defnyddio i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ysgogol i'r plant. Mae'r staff yn dechrau rhoi system gweithwyr allweddol ar waith i'w galluogi i gynnal arsylwadau mwy rheolaidd ar y plant. Mae gan y staff systemau effeithiol ar waith i gyfathrebu â'r rhieni, gan eu hysbysu'n rheolaidd am amser eu plentyn yn y lleoliad.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod bob amser yn cloi'r drysau. Mae'r plant, ymwelwyr a'r staff yn llofnodi i mewn ac allan o'r adeilad fel mater o drefn. Maent yn cwblhau asesiadau risg manwl ar gyfer pob agwedd ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r argymhellion o'r adroddiad cofrestru mewn perthynas â gwella diogelwch y gwydr yn y drysau mewnol o hyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn goruchwyllo'r plant yn dda. Maent yn deall y gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol ac annerbyniol ar gyfer oedrannau, anghenion a galluoedd y plant maent yn gofalu amdanynt. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl ohonynt er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff a phob plentyn adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r safle ac mae'r holl wiriadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad a'r cyfarpar yn gyfredol. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad arolygu, nid oedd modd i'r plant ddefnyddio'r tapiau dŵr poeth yn ardal y toiledau gan fod dŵr yn gollwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael; ac yn darparu mannau dysgu i'r plant eu harchwilio yn ogystal ag ardaloedd iddynt orffwys a chael amser tawel. Mae'r ardal awyr agored wedi'i hamgáu'n llawn, ac mae'r plant yn defnyddio'r ardal hon drwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i fod yn greadigol ac i archwilio'n hyderus ac yn annibynnol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn creu amgylchedd chwarae ysgogol i'r plant gan gynnig digon o adnoddau i ddatblygu eu chwilfrydedd a'u diddordebau. Maent yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant yn hwylus i'w hysgogi ac i ennyn eu diddordeb. Er enghraifft, mae adnoddau synhwyraidd ar gael i'r babanod iau, cyfres o lyfrau straeon Cymraeg a Saesneg, ardal chwarae byd bach ac ardaloedd crefft. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y dodrefn a'r adnoddau yn addas ar gyfer anghenion datblygiadol pob plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag AGC ac maent yn awyddus i hybu gwelliant. Mae gweledigaeth gref ar gyfer y lleoliad, y mae eraill yn ei rhannu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i AGC am unrhyw ddigwyddiadau o bwys ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am newidiadau drwy'r porth ar-lein. Mae Datganiad o Ddiben cywir yn darparu trosolwg clir o'r ddarpariaeth a gynigir.

Maent yn sicrhau bod cofnodion rheoliadol ar waith. Maent yn cwblhau'r cofrestrau ar gyfer y plant a staff y lleoliad. Cedwir contractau a gwybodaeth am bob plentyn ynghyd â ffurflenni cydsynio ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau yn y lleoliad. Caiff polisïau, gweithdrefnau a dogfennau eu hadolygu'n rheolaidd. Mae ganddynt dystysgrif Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ynghyd ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol. Mae systemau hunanwerthuso effeithiol ar waith. Maent yn gofyn barn y plant, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Fel rhan o'r adolygiad, maent yn myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a sut y gallant wella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn arwain drwy esiampl, ac yn cynnig amgylchedd gweithio fel tîm effeithiol a chefnogol. Mae ethos tîm cryf yn y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio cadarn er mwyn diogelu'r plant. Mae gweithdrefnau recriwtio a gwiriadau addasrwydd ar waith. Mae gan bob aelod o'r staff wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Caiff y broses sefydlu ei chwblhau. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd rhai o ffeiliau'r staff a welsom yn cynnwys dau eirda. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad eu bod wedi cael eu cynnwys. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr, a chynhelir arfarniadau rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff sesiynau goruchwyllo staff bob amser eu cwblhau na'u cofnodi'n ffurfiol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at yr unigolyn cyfrifol neu'r person â chyfrifoldeb ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu anghenion hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod bob amser yn bodloni'r gofynion o ran y nifer gofynnol o staff â chymwysterau addas i ofalu'n ddiogel am y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau â'r rhieni a'r gofalwyr. Maent yn cael eu cefnogi gan weithwyr proffesiynol, sy'n gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant a'r teuluoedd sy'n mynychu'r lleoliad. Maent yn gwneud ceisiadau am gyllid grant i ddatblygu'r ddarpariaeth, sydd o fudd i'r rhai sy'n mynychu'r lleoliad.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
29	Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd arfarnu rheolaidd, a bod cofnod yn cael ei gadw ohonynt.	Newydd

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol	
Safon	Argymhelliad/argymhellion
Safon 10 - Gofal lechyd	Sicrhau y caiff cyfarpar diogelu personol (PPE) llawn ei wisgo wrth ddelio â hylifau'r corff, yn enwedig wrth newid cewynnau.
Safon 22 - Yr amgylchedd	Atgyweirio tapiau'r yn ardal y toiledau er mwyn darparu dŵr poeth ac oer.
Safon 22 - Yr amgylchedd	Rhoi'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad cofrestru ar waith mewn perthynas â gosod haen ddiogelwch ar wydr y drysau mewnol.

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

Arferion Gorau
Argymhelliad/argymhellion
Parhau i ddatblygu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a'u rhoi ar waith.

Graddau	Ystyr y graddau
Rhagorol	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 15/05/2024